




Tywod Gwlyb



CAMAU DATBLYGU MEWN LLENWI A GWACAU

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU

Mae'n archwilio tywod gwlyb gyda'i ddwylo a'i fysedd.

Oedolyn – Rhoi cyfle i archwilio tywod trwy grafu a sgwpio ac ati.
Adnoddau – Tywod gwlyb.



Mae'n llenwi cynhwysyddion â thywod gwlyb yn defnyddio'i ddwylo.

Oedolyn – Modelu ochr yn ochr â'r plentyn. Defnyddio geirfa briodol e.e. 'llenwi', 'llawn', 'gwag'.
Adnoddau – Tywod gwlyb. Cynhwysyddion plastig bach a chanolig.



Mae'n llenwi'r cynhwysyddion gan ddefnyddio sgŵp.

Oedolyn – Darparu sgwpiâu maint addas i'r cynhwysyddion. Modelu ochr yn ochr â'r plentyn. Defnyddio geirfa briodol.
Adnoddau – Tywod gwlyb. Amrywiaeth o gynhwysyddion a sgwpiâu.



Llenwi a gwacau cynhwysyddion o feintiau gwahanol gan ddefnyddio amryw o offer.

Oedolyn – Darparu o leiaf dau gynhwysydd o wahanol faint ac offer o feintiau priodol. Trafod â'r plentyn ei ddewis o gynhwysydd ac offer.
Adnoddau – Tywod gwlyb, cynhwysyddion ac offer o wahanol feintiau, e.e. bwcedi, berfâu, mowldiau, llwyau, sgwpiâu a rhawiau.



CAMAU DATBLYGU WRTH SIAPIO A MOWLDIO (1)

I symud trwy'r camau hyn, gofalu fod y plentyn yn cael cyfle i gymysgu'r tywod a'r dŵr i'r tewdra priodol.

DISGRIFIAD O'R CAM

Mae'n archwilio tywod gwlyb gyda'i ddwylo a'i fysedd.

CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU

Oedolyn – Rhoi cyfle i archwilio tywod trwy bwyso, procio, pwnio, gwthio a gwasgu. Defnyddio'r eirfa briodol wrth wneud e.e. 'pwysu', 'procio', 'pwnio'.
Adnoddau – Tywod gwlyb.



Mae'n defnyddio'i ddwylo a'i fysedd i siapia tywod gwlyb.

Oedolyn – Modelu a chynorthwyo'r plentyn i siapia tywod.
Adnoddau – Tywod gwlyb.



Mae'n gwasgu cynhwysydd/mowld i mewn i dywod gwlyb i greu siâp.

Oedolyn – Darparu detholiad o gynhwysyddion a mowldiau. Rhoi cyfle i archwilio.
Adnoddau – Tywod gwlyb ac amrywiaeth o gynhwysyddion/mowldiau.



Mae'n llenwi cynhwysyddion/mowldiau â thywod gwlyb. Mae'n cywasgu a lefelu'r tywod. Mae'n troi'r cynhwysydd/mowld drosodd, ei daro ac yn ei godi'n ofalus i ddatgelu siâp yn y tywod.

Oedolyn - Darparu detholiad o gynhwysyddion a mowldiau bach. Modelu ochr yn ochr â'r plentyn.
Adnoddau – Tywod gwlyb. Amrywiaeth o gynhwysyddion/mowldiau bach, sgwpiâu a/neu rawiau.



Mae'n llenwi cynhwysyddion/mowldiau â thywod gwlyb i wneud cestyll tywod, gan ddangos rheolaeth a chyd-symudiad.

Oedolyn – Cynorthwyo ac annog y plentyn i feddwl am y cam nesaf yn y broses o wneud castell tywod.
Adnoddau – Tywod gwlyb. Bwcedi/potiau blodau, rhawiau/sqwpiâu.



CAMAU DATBLYGU WRTH SIAPIO A MOWLDIO (2)

I symud trwy'r camau hyn, gofalwch fod y plentyn yn cael cyfle i gymysgu'r tywod a'r dŵr i'r tewdra priodol.

DISGRIFIAD O'R CAM

Mae'n defnyddio sgiliau a thechnegau y mae wedi'u dysgu i greu adeiladwaith/cerflun tywod.

Mae'n cynllunio o flaen llaw ac yna'n siapio'r tywod i wneud adeiladwaith/cerflun dewisedig.

CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU

Oedolyn – Trafod yr adeiladwaith/cerflun gyda'r plentyn a rhoi cymorth yn ôl yr angen.

Adnoddau – Tywod gwlyb. Amrywiaeth o offer a chynhwysyddion. Gwrthrychau ar gyfer addurno.



Oedolyn – Trafod y dyluniad/model a rhoi anogaeth.

Adnoddau – Tywod gwlyb. Amrywiaeth o offer a chynhwysyddion. Gwrthrychau i addurno.



CAMAU DATBLYGU WRTH WNEUD MARCIAU

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU

Mae'n archwilio gwneud marciau mewn tywod gwlyb.

Oedolyn – Rhoi cyfle i'r plentyn archwilio'n rhydd a thynnu sylw at y marciau y mae wedi'u gwneud gyda'i fysedd a'i ddwylo.

Adnoddau – Tywod gwlyb.



Mae'n archwilio gan ddefnyddio offer a gwrthrychau i wneud marciau mewn tywod glwlyb.

Oedolyn – Darparu tywod gwlyb a gadael i'r plentyn archwilio'n rhydd. Annog y plentyn i edrych ar y marciau y mae wedi'u gwneud.

Adnoddau – Tywod gwlyb. Adnoddau naturiol – cregin, prisiau, moch coed ac ati. Adnoddau gwneud – ceir, crafwyr, cribau, cribinau, tryweli ac ati.



Mae'n dewis adnodd ar gyfer y marc y mae'n ei wneud.

D.S. Yn y cam hwn, gall y plentyn gynllunio i ddefnyddio'r marc y bydd yn ei wneud fel rhan o ddyluniad addurniedig. Gweler 'Camau Datblygu wrth Addurno'.

Oedolyn – Darparu amryw o adnoddau gwneud marciau. Trafod/arsylwi pa adnoddau sy'n gwneud marciau penodol.

Adnoddau – Tywod gwlyb, adnoddau amrywiol (offer a gwrthrychau).



CAMAU DATBLYGU WRTH ADDURNO

DISGRIFIAD O'R CAM

Mae'n gosod gwrthrychau ar hap ar/ mewn tywod gwlyb ac yn eu gadael yn eu lle.

Mae'n defnyddio gwrthrychau i addurno'r tywod gwlyb a gall hyn gynnwys gosod gwrthrychau mewn gwahanol safleoedd cyn penderfynu ar y safle terfynol.

Mae'n cynllunio ar lafar, dewis a gosod gwrthrychau i wneud dyluniad.

Mae'n cynllunio, tynnu llun a chreu dyluniad addurniedig.

Mae'n cynllunio dyluniad, creu, gwerthuso ac addasu yn ôl yr angen.

CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU

Oedolyn – Cynnig gwrthrychau mawr i'r plentyn, cyn symud ymlaen i rai llai, i'w gosod yn y tywod gwlyb.

Adnoddau – Tywod gwlyb, gwrthrychau amrywiol i addurno – cregin, plu, brigau, cerrig, caeadau poteli, baneri, gwyon ac ati.

Oedolyn – Chwarae ochr yn ochr â'r plentyn, gan ei (h)annog i wneud dewisiadau deallus.

Adnoddau – Tywod gwlyb, gwrthrychau amrywiol i addurno.

Oedolyn – Trafod bwriadau gyda'r plentyn a rhoi cymorth yn ôl yr angen. (Tynnu ffotograff o'r dyluniad gorffenedig, os dymunwch).



Adnoddau – Tywod gwlyb, gwrthrychau amrywiol i addurno, camera, lle i'r plant arddangos ffotograffau o'u gwaith.

Oedolyn – Trafod dyluniad a darparu anogaeth. (Efallai y bydd y plentyn yn dewis gwneud marciau yn y tywod fel rhan o'i ddyluniad addurniedig).

Adnoddau – Adnoddau gwneud marciau, tywod gwlyb, gwrthrychau amrywiol i addurno.

Oedolyn – Cynorthwyo ac annog y plentyn i werthuso ac – os oes angen – addasu ei ddyluniad gwreiddiol. (Efallai y bydd y plentyn yn dewis gwneud marciau yn y tywod fel rhan o'i ddyluniad addurniedig).

Adnoddau – Adnoddau gwneud marciau, tywod gwlyb, gwrthrychau amrywiol i addurno.



CAMAU DATBLYGU WRTH CHWARAE'N DDYCHMYGOL

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU

Mae'n archwilio ystod o adnoddau byd bach/chwarae rôl.

Oedolyn – Darparu amryw o adnoddau priodol a chwarae ochr yn ochr â'r plentyn.
Adnoddau – Tywod gwlyb, adnoddau byd bach/chwarae rôl e.e. pobl duplo, madfallodd, nadroedd, deinosoriaid, jac codi baw, cerrig, cregin, tabardiau, hetiau caled, lorïau dadlwytho.



Mae'n dechrau defnyddio amryw o adnoddau byd bach/chwarae rôl yn briodol.

Oedolyn - Annog a chynorthwyo'r plentyn i ddefnyddio'r adnoddau'n briodol.
Adnoddau – Tywod gwlyb ac amrywiaeth o adnoddau byd bach/chwarae rôl.



Mae'n defnyddio ei brofiadau ei hun a symbyliadau eraill i chwarae'n ddychmygol ag adnoddau byd bach/chwarae rôl.

Oedolyn – Annog a chynorthwyo'r plentyn i ddefnyddio'r adnoddau'n briodol ac yn greadigol.
Adnoddau – Tywod gwlyb ac amrywiaeth o adnoddau byd bach/chwarae rôl. Symbyliad – storïau, caneuon/rhigymau, ffotograffau, cardiau post ac ati.



Mae'n defnyddio cyfuniad o sgiliau ffurfio, siapio ac addurno i greu golygfa mewn tywod gwlyb ac mae'n chwarae'n ddychmygol gydag adnoddau byd bach/chwarae rôl.

Oedolyn – Annog y plentyn i ddefnyddio'r sgiliau y mae eisoes wedi'u dysgu i greu golygfa dywod. Cynorthwyo'r plentyn i adrodd stori'n defnyddio'r olygfa hon. Os yw'n briodol, sgrifellu geiriau'r plentyn a thynnu ffotograff o'r olygfa a grëwyd.
Adnoddau - Tywod gwlyb, adnoddau chwarae rôl, symbyliadau, camera, papur ac offer ysgrifennu.



Mae'n creu golygfa ac yn defnyddio adnoddau i actio stori. Mae'n rhannu/cofnodi'r stori.

Oedolyn – Gwranddo ar y stori. Annog y plentyn i gofnodi a thynnu ffotograffau o'r stori.
Adnoddau – Tywod gwlyb, adnoddau byd bach/chwarae rôl, symbyliadau, camera, papur/llyfr wedi'i wneud â llaw/clipfwrdd ac offer ysgrifennu.

